MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

## ADOLYGIAD DALGYLCH

Yn ddiweddar mae'r awdurdod wedi cynnal adolygiad o ddalgylchoedd ysgolion ledled yr awdurdod i sicrhau bod digon o leoedd i blant allu fynychu eu hysgol leol o'r flwyddyn academaidd 2017/18 ac yn y dyfodol rhagweladwy. O ganlyniad i'r adolygiad, mae'r awdurdod yn ystyried rhai newidiadau ac er mwyn sicrhau bod unrhyw benderfyniad a wneir o'r lles gorau i'r gymuned, gofynnir am safbwyntiau rhieni'r ysgolion a gaiff eu heffeithio.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn effeithio ar ddalgylchoedd:

Ysgolion Cynradd Cyfrwng Cymraeg
Ysgol Rhyd y Grug - Ysgol Santes Tudful

Ysgolion Cynradd Cyfrwng Saesneg
Ysgol Gynradd Caedraw - Ysgol Gynradd Twynyrodyn

Os bydd cytuno ar y newidiadau hyn, byddant yn dod i rym ar gyfer ceisiadau mynediad ar gyfer y flwyddyn academaidd 2017/18 a thu hwnt. **Ni fydd hyn yn effeithio ar leoedd ysgol unrhyw ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgolion hyn ar hyn o bryd ond bydd y dalgylchoedd diwygiedig, o'u cytuno, yn cael eu defnyddio i gynorthwyo â dyrannu lleoedd o fis Medi 2017 ymlaen.**

### Beth yw dalgylch?

Ardal o gyfeiriadau a ddiffinnir yn ddaearyddol yw dalgylch ysgol, a gaiff ei ddefnyddio i sicrhau bod pob ysgol yn cael cyfran deg o ddisgyblion. Defnyddir dalgylchoedd:

- I ddynodi eu hysgol leol i rieni.
- I helpu ysgolion i ddynodi'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.
- I flaenoriaethu mynediad plant lleol i ysgolion pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd.
- Fel offer cynllunio i alluogi'r cyngor i ragweld y galw am addysg mewn ardal ac i gynllunio i ateb y galw hwnnw.
- I gynorthwyo gyda threfnu cludiant i'r ysgol.

Nid yw dalgylchoedd yn gymwys i ysgolion arbennig neu unedau arbennig.

### Pam fo hyn yn digwydd?

Mae'r awdurdod yn rheoli derbyniad disgyblion i ysgolion gan ddefnyddio meini prawf gordanysgrifio, sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i blant o'r dalgylch pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd. Mae adolygiad o'r dalgylchoedd yn angenrheidiol felly i sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu anghenion yr ysgolion maen nhw'n eu gwasanaethau wrth gydnabod bod dewis rhieni hefyd yn bwysig.

Caiff y newidiadau uchod eu cynnig i ddarparu cydbwysedd gwell o leoedd yn nalgylchoedd yr ysgolion o'i gymharu â nifer gyffredinol y lleoedd ysgol sydd ar gael. Bydd hyn yn sicrhau, cyhyd ag y bo'n bosibl, y bydd disgyblion sy'n byw mewn ardal yn gallu sicrhau lle yn eu hysgol leol. Mae'r newidiadau arfaethedig hyn hefyd wedi eu cynllunio i ddarparu perthynas ddaearyddol agosach ag ysgolion ac i sicrhau bod ysgolion yn cael cyfran deg o ddisgyblion. Bydd y dalgylchoedd diwygiedig yn cefnogi proses dderbyniadau'r cyngor, yn hyrwyddo mynediad teg i leoedd mewn ysgolion cynradd ac yn ymdrin â'r nifer uchel o geisiadau dalgylch mewn ysgolion penodol.

**Beth yw'r newidiadau arfaethedig?**

## 1. *Ysgolion Cynradd Cyfrwng Cymraeg*

**Y cynnig yw newid dalgylchoedd Ysgol Santes Tudful ac Ysgol Rhyd y Grug ac i ddisgyblion o ardaloedd Abercannaid, Pentrebach a Throedyrhiw fod yn nalgylch Ysgol Rhyd y Grug. Bydd y cynnig hwn hefyd yn galluogi Ysgol Santes Tudful i ateb y galw am addysg Cyfrwng Cymraeg gan boblogaeth gynyddol yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol. Mae mapiau'n dangos y newidiadau ar gael yn yr ysgol ac ar-lein:** www.merthyr.gov.uk/residents/schools-and-learning/education-consultations/

### Ysgol Santes Tudful: Ysgol Rhyd y Grug

- Ysgol Santes Tudful yw'r ysgol gynradd Cyfrwng Cymraeg sy'n gwasanaethu ardaloedd Abercannaid, Pentrebach a Throedyrhiw ar hyn o bryd. Yn sgil twf ym mhoblogaeth ardal ogleddol yr awdurdod, mae'r ysgol yn llawn. Os caiff dalgylchoedd Abercannaid, Pentrebach a Throedyrhiw eu newid i wasanaethu Ysgol Rhyd y Grug bydd digon o leoedd yn Ysgol Santes Tudful ar gyfer disgyblion sy'n debygol o ddod o'r datblygiadau tai newydd yn y dalgylch diwygiedig. Yn ogystal, mae gan Ysgol Rhyd y Grug ddigon o le i greu mwy o le mewn ystafelloedd dosbarth a bydd hyn ar waith ar gyfer mis Medi 2017.
- Ar hyn o bryd mae 61 o blant sy'n byw yn ardaloedd Abercannaid, Pentrebach a Throedyrhiw yn mynychu ysgolion Cyfrwng Cymraeg ac mae 44 ohonynt yn mynychu Ysgol Santes Tudful ar hyn o bryd.
- Darperir cludiant i'r ysgol am ddim o ardal Troedyrhiw i Ysgol Santes Tudful yn rhinwedd y ffaith ei bod yn bellach na'r ddwy filltir cymhwyso. Byddai cludiant i'r ysgol am ddim yn parhau i blant sy'n byw yn bellach na dwy filltir o Ysgol Rhyd y Grug.
- Os bydd cytuno ar y cais i newid y dalgylchoedd, byddai'r plant hynny sy'n mynychu Ysgol Santes Tudful ar hyn o bryd ac yn derbyn cludiant i'r ysgol am ddim o ardaloedd Abercannaid, Pentrebach a Throedyrhiw yn parhau i dderbyn cludiant am ddim i Ysgol Santes Tudful hyd nes eu bod yn gadael yr ysgol.
- Cafodd Ysgol Rhyd y Grug ei symud i safle fwy o faint a oedd wedi ei ailwampio yn 2010 er mwyn galluogi'r twf mewn addysg Cyfrwng Cymraeg ledled y fwrdeistref sirol. Mae digon o le am 90 o ddisgyblion ychwanegol ar y safle presennol.

## 2. *Ysgolion Cynradd Cyfrwng Saesneg*

**Y cynnig yw newid dalgylch Ysgol Gynradd Caedraw i gynnwys cyfeiriadau sydd yn nalgylch Ysgol Gynradd Twynyrodyn ar hyn o bryd. Mae mapiau'n dangos y newidiadau ar gael yn yr ysgol ac ar-lein yma:** www.merthyr.gov.uk/residents/schools-and-learning/education-consultations/

### Ysgol Gynradd Caedraw: Ysgol Gynradd Twynyrodyn

- Mae niferoedd y disgyblion yn Ysgol Gynradd Twynyrodyn wedi bod yn codi dros y blynyddoedd diwethaf ac mae lleoedd ychwanegol wedi'u creu yn yr ysgol bresennol i ateb y galw amlwg hwn. Fodd bynnag, dengys arwyddion fod y twf yn nifer y disgyblion yn parhau; mae'r grŵp oedran Meithrin ar gyfer mis Medi 2015 wedi cael 58 o geisiadau am leoedd erbyn y dyddiad cau, a dim ond 45 lle sydd ar gael.

- Mae Ysgol Gynradd Caedraw wedi ei lleoli llai na milltir o Ysgol Gynradd Twynyrodyn ac mae rhai lleoedd dros ben ar gael ar hyn o bryd. Mae cyfle hefyd i greu rhagor o le mewn ystafelloedd dosbarth yn yr ysgol os bydd angen hynny yn y dyfodol. Mae rhan o ddalgylch Ysgol Gynradd Twynyrodyn yn nes at Ysgol Gynradd Caedraw ac nid yw hynny'n anarferol mewn ardal drefol ond mae'n esbonio pam fo llawer o deuluoedd sy'n byw yn nes at Ysgol Gynradd Caedraw yn gwneud cais am le yn yr ysgol honno.

**Ydy hyn yn effeithio arnaf i?**

BYDD Y CYNNIG HWN, OS BYDD CYTUNO ARNO, YN EFFEITHIO AR GEISIADAU AM LEOEDD MEWN YSGOLION AR GYFER MIS MEDI 2017 YMLAEN YN UNIG. BYDD PLANT SY'N MYNYCHU UNRHYW UN O'R YSGOLION A ENWIR UCHOD YN GALLU PARHAU I FYNYCHU EU HYSGOL BRESENNOL HYD NES IDDYNT DROSGLWYDDO I YSGOL UWCHRADD.

Mae mapiau'n dangos y dalgylchoedd presennol a diwygiedig ar gael yn eich ysgol leol. Gallwch hefyd edrych ar y wybodaeth ar-lein ar www.merthyr.gov.uk/residents/schools-and-learning/education-consultations/

**Ymgynghoriad**

Cyn iddo wneud penderfyniad hoffai'r awdurdod glywed eich barn ar y cynnig hwn. Gallwch ddweud eich barn wrthym trwy:

1. Fynd i gyfarfod agored yn unrhyw un o'r lleoliadau canlynol:

| Ysgol | Dyddiad | Amser |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Caedraw | 7 Rhagfyr 2015 | 15.30 |
| Ysgol Gynradd Twynyrodyn | 5 Ionawr 2016 | 15.30 |
| Ysgol Rhyd y Grug | 12 Ionawr 2016 | 15.00 |
| Ysgol Santes Tudful | 11 Ionawr 2016 | 17.00 |

2. Ysgrifennu llythyr i'r Tîm Derbyniadau Ysgolion:

   Tîm Derbyniadau Ysgolion
   Adolygiad Dalgylch
   Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
   Uned 5
   Pentrebach
   Merthyr Tudful
   CF48 4TQ

3. E-bost:

   School.admissions@merthyr.gov.uk

Mae rhagor o wybodaeth a mapiau ar gael ar-lein: www.merthyr.gov.uk/residents/schools-and-learning/education-consultations/

**MAE'R YMGYNGHORIAD AR AGOR AC YN CAU AR 29 IONAWR 2016.**